**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 21 Hydref 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| E J King | A S Lewis | A Pugh |
| R V Smith | A H Stevens | M Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr):

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

### 52. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr E J King, A S Lewis a R C Stewart gysylltiad personol â chofnod 58 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol".

2) Datganodd y Cynghorwyr R Francis-Davies a A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 58 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a thynnodd yn ôl o'r cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

3) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 58 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

### 53. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021.

## 54. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Munud o Ddistawrwydd

### a) Trychineb Aberfan

Dywedodd Arweinydd y Cyngor 55 o flynyddoedd yn ôl i heddiw y bu farw 116 o blant a 28 o oedolion yn ystod trychineb Aberfan pan lithrodd tomen gwastraff glo i lawr ar Ysgol Iau Pantglas a'r tai amgylchynol.

### b) Syr David Amess (AS)

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at lofruddiaeth drasig Syr David Amess AS ar 15 Hydref 2021.

Fel arwydd o gydymdeimlad a pharch cafwyd munud o ddistawrwydd.

### 2) Cyfarfodydd Aml-leoliad - Diolch

Dywedodd Arweinydd y cyngor fod y cyfarfod yn un o'r cyfarfodydd aml-leoliad cyntaf i'w gynnal yng Nghymru yn dilyn newid deddfwriaethol. Diolchodd i'r Cynghorydd Andrew Stevens, Huw Evans, Darren Richards a Nerys Williams am weithio i wneud y cyfan yn bosib. Diolchodd hefyd i Lywodraeth Cymru am ei grant i'w wneud yn bosib.

## 55. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Cyflwynodd Nortridge Perrott 4 cwestiwn mewn perthynas â Chofnod 59 "Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Amddiffyniad Arfordirol y Mwmbwls - Grant Rheoli Risgiau Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2018-22".

Ymatebodd y Cynghorwr Mark Thomas.

## 56. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 57. Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020/21

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020/21, a oedd yn adrodd am y cynnydd a wnaed i fodloni amcanion lles y cyngor a ddisgrifiwyd yn y Cynllun Corfforaethol ac i fodloni gofynion eraill a nodir yn y

canllawiau statudol sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad i'w gyhoeddi.

## 58. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ysgol Gynradd Gellifedw | Helen Thomas |
| 2. | Ysgol Gynradd Clwyd | Douglas Thomas |
| 3. | Ysgol Gynradd Gorseinon | Deborah Rowberry |
| 4. | Ysgol Gynradd Mayals | Brian Arthur |
| 5. | Ysgol Gynradd Penyrheol | Y Cynghorydd Andrew Stevens |
| 6. | Ysgol Gynradd Pontarddulais | Jane Harris |
| 7. | Ysgol Gynradd Waun Wen | Lynwen Barnsley |
| 8. | YGG y Login Fach | Y Cyng. Wendy Lewis |
| 9. | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas | Y Cyng. Michael Durke |
| 10. | Ysgol Gyfun Treforys | Y Cyng. Robert Francis-Davies |
| 11. | Ysgol Gyfun yr Olchfa | Y Cyng. Mike Day |

## 59. Rheol 7 y weithdrefn ariannol, amddiffyniad arfordirol y Mwmbwls - grant rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol 2018-22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn gofyn am gadarnhau'r grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordirol (Cyfalaf) diweddaredig gan Lywodraeth Cymru a chynnwys y gwariant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22 i gydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol – neilltuo ac awdurdodi cynllun i'r Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Y cadarnheir y grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd (Cyfalaf) o £1,735,130.19, sef cyfanswm cyllid o 100% ar gyfer cam dylunio'r cynllun hwn a bod hyn wedi'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer blynyddoedd 2021/22 hyd at 2022/23. Cyfanswm cost cam cychwynnol y cynllun yw £1,735,130.19.

## 60. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Grantiau Ychwanegol Cronfa Teithio Llesol 2021/22

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn gofyn am:

i) Gymeradwyo'r cais am gyllid ar gyfer Cyllid Ychwanegol y Gronfa Teithio Llesol (CTLl), a chadarnhau canlyniad y cais, a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer gwariant ar y prosiectau cysylltiedig yn 2021/22.

ii) Cymeradwyo dirprwyo unrhyw fanylion sy'n weddill sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau, yn unol â'r gymeradwyaeth ar gyfer y grant, i alluogi'r cynllun i gael ei gyflawni o fewn tymor y grant, i Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd a'r Cyfarwyddwr Lleoedd.

iii) Cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf): ymrwymo ac awdurdodi cynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd:**

1) Y caiff cynlluniau ychwanegol Cronfa Teithio Llesol 2021/22, ynghyd â'u goblygiadau ariannol, eu cymeradwyo.

## 61. Cynnig i adfeddu safleoedd y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Refeniw Tai.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau ac Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio ystyried y posibilrwydd o adfeddu safleoedd datblygu preswyl y Gronfa Gyffredinol a nodwyd i'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) er mwyn cefnogi darpariaeth tai fforddiadwy trwy'r fenter Rhagor o Gartrefi.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Adfeddu safleoedd y Gronfa Gyffredinol a enwir yn y tabl yn Adran 4.3 yr adroddiad i'r Cyfrif Refeniw Tai ar werth y farchnad awgrymedig, gan nodi lleihad posib yn y derbyniad cyfalaf.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau ac Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Gweithrediadau gytuno ar werth terfynol safle Midland Place yn unol â phroses dichonoldeb y cynllun.

## 62. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 63. Prosiect Isadeiledd Ffordd y Brenin FPR7

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth ac Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglennu a Gwerthusiadau Cyfalaf) - i awdurdodi amrywiad ar y cynllun cyfalaf presennol yn y Rhaglen Gyfalaf, sy'n deillio o effaith estyniad sy'n deillio o'r contractwr gwreiddiol yn mynd i ddwylo'r gweinyddwr, ac effaith pandemig COVID-19.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.05 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | (Add Welsh Month) |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, ??? |
| Penderfyniad yn dod i rym: | |